# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **CLIMATE CHANGE AND ECOLOGICAL EMERGENCY WORKING GROUP** are attached below.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Head of Legal, HR and Democratic Services**

**AGENDA**

**1 TAFLEN AGENDA** (Tudalennau 3 - 4)

**2 COFNODION** (Tudalennau 5 - 18)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# RHAGLEN

**CYFARFOD: GWEITHGOR ARGYFWNG HINSAWDD AC ECOLEGOL**

| | |
|---|---|
| **Date** | 9 Mawrth 2020 |
| **Time** | 10.30-12.00 |
| **Location** | Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun |
| **Chair** | Y Cyng Graham Timms |
| **Notes** | Helen Vaughan-Evans |
| **Apologies** | Y Cyng Gwyneth Kensler |

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**2. Cofnodion, camau gweithredu a phenderfyniadau o'r cyfarfod diwethaf**

**3. Materion yn codi**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Agenda Datgarboneiddio yn Llywodraeth Cymru - *Helen Vaughan-Evans*
- Myfyrio ar waith y grŵp ac enillion hawdd – *y Cyng Graham Timms*
- Cyfnod Ymgysylltu â'r Cyhoedd 21 Ionawr – 25 Chwefror - *Helen Vaughan-Evans*

**4. Camau Nesaf a chynllun ar gyfer 2020/21** - *Judith Greenhalgh / Helen Vaughan-Evans*

**5. Awgrymiadau'r Cyngor Staff: Ymateb a chamau gweithredu sefydliadol –** *Judith Greenhalgh*

**6. Ail-ddraffio llythyr i Lywodraeth Cymru (Lesley Griffiths AC)**

**7. Unrhyw Fater Arall**

**8. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a chyfarfodydd nesaf**

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 09 / 03 / 2020 |
| **Amser** | 10.30 tan 12.00 |
| **Lleoliad** | Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun |
| **Yn bresennol** | Cyng. Bobby Feeley (BF); Cyng. Barry Mellor (BM); Cyng. Tony Thomas (TT); Cyng. Brian Jones (BJ); Cyng. Arwel Roberts (AR); Cyng. Joe Welch (JW); Cyng. Graham Timms (GT) |
| **Ymddiheuriadau** | Y Cyng. Gwyneth Kensler (GK) |
| **Hefyd yn bresennol** | Swyddogion Cefnogi: Judith Greenhalgh (JG), Tony Ward (TW), Helen Vaughan-Evans (HVE), Joel Walley (JW), Nicola Kneale (NK), Tom Booty (TB)<br><br>Aelodau Arsylwi: Cyng. Martyn Holland (MH) |

## 1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd GT bawb i'r cyfarfod.

## 2. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Adolygwyd camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf a darparwyd diweddariad. Gweler y tabl crynodeb isod.

## Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **HVE –** i ofyn i gyswllt o Lywodraeth Cymru am becyn sleidiau o Gynhadledd Newid Hinsawdd mis Hydref a chopi o'r fideo uchafbwyntiau unwaith y bydd ar gael | **CWBLHAWYD OND NID OEDD WEDI DERBYN Y DOGFENNAU**<br>Gwnaethpwyd cais i Rhys Horan ar 11.02.20 ond mae ef yn dal i aros am y dogfennau gan gydweithwyr o Lywodraeth Cymru cyn y gall eu hanfon atom. |
| **HVE-** i wahodd Rhys Horan (Llywodraeth Cymru) a Ben Sears (CLlLC) i gyfarfod gweithgor mis Ebrill a gwneud trefniadau tele-gynadledda ar gyfer Ben. | **CWBLHAWYD**<br>Bydd Rhys yn mynychu ein cyfarfod ar 28 Ebrill yn bersonol a bydd Ben yn bresennol o bell. |
| **TW –** trefnu diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer y Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau a'r Amgylchedd gyda ffocws ar newid carbon/hinsawdd. HVE i gefnogi. | **CWBLHAWYD**<br>Mynychodd HVE gyfarfod rheoli y Gwasanaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a'r Amgylchedd ar 04.03.20<br>Mae diwrnod cwrdd i ffwrdd wedi'i drefnu ar gyfer y Gwasanaeth ar 10.06.20 ar thema newid hinsawdd ac ecoleg |
| **HVE –** i osod drafftio llythyr i Lesley Griffiths (AC) fel eitem ar raglen cyfarfod y gweithgor ar 9 Mawrth | **CWBLHAWYD**<br>Ar raglen y cyfarfod heddiw |

# Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **HVE –** i anfon e-bost at Gynghorwyr ynglŷn â mynychu cyfarfod cyhoeddus | **CWBLHAWYD**<br><br>E-bost wedi'i anfon ar 05.02.20 |
| **HVE –** i ddrafftio e-bost i Julian Malloy ei anfon | **CWBLHAWYD** |
| **HVE –** i lunio a pharatoi trefniadau gyda swyddogion ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus | **CWBLHAWYD**<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar 25.02.20 |
| **HVE** – i ddiweddaru'r rhestr o fynychwyr yn y cyfarfod cyhoeddus | **CWBLHAWYD** |
| **HVE a JG –** i roi ymateb at ei gilydd i Gyfeillion y Ddaear a'r Gwrthryfel Difodiant yn seiliedig ar fewnbwn Aelodau | **CWBLHAWYD**<br><br>Anfonwyd ymateb gan Sharon Evans 05.03.20 |
| **HVE –** i weithio gyda'r gwasanaeth Cyfathrebu Corfforaethol i greu cyfres o dudalennau gwe ar ein gwefan am Newid Hinsawdd ac Ecoleg | **PARHAUS**<br><br>Cytunwyd ar ddyluniad dechreuol y tudalennau. Anelu at sicrhau bod y tudalennau'n fyw erbyn diwedd mis Mawrth |

## Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **HVE –** ar y cyd â Steve Price a'r gwasanaeth Cyfathrebu Corfforaethol, archwilio'r posibilrwydd o roi cofnodion y cyfarfod hwn ar y wefan. | **CWBLHAWYD – CYNNIG I GADARNHAU**<br><br>Yn dechnegol mae'n bosibl gwneud hyn trwy ddefnyddio system ModernGov. Cynnig gwneud cofnodion o gyfarfod heddiw a chyfarfodydd dilynol mewn misoedd i ddod yn gyhoeddus.<br><br>**CYTUNODD Y GRŴP AR Y CYNNIG** |
| **JG –** parhau i gysylltu gyda chyswllt y Gwrthryfel Difodiant ynglŷn â hyfforddiant sydd ar gael ac adrodd yn ôl i'r gweithgor | **PARHAUS** |
| **HVE –** i symud ymlaen â gwaith ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu | **PARHAUS**<br><br>Gweler y papur camau nesaf yn rhaglen y cyfarfod heddiw |
| **HVE –** i anfon sleidiau Polisi Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu Angela Loftus fel rhan o'r cofnodion | **CWBLHAWYD** |

# Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **AL –** i anfon dolen gyswllt at aelodau'r gweithgor ar gyfer yr ymgynghoriad newid rheoliadau adeiladu | **CWBLHAWYD**<br><br>Anfonodd HVE y ddolen gyswllt at Aelodau gan gynnig eu bod yn cyfrannu at yr ymateb i'r ymgynghoriad. |
| **HVE –** i drefnu cyfarfodydd ar gyfer mis Ebrill, Mai, Gorffennaf a mis Medi (Awst - egwyl dros yr haf) | **CWBLHAWYD** |

## 3. Materion yn Codi

**3.1 <u>Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Agenda Datgarboneiddio yn Llywodraeth Cymru</u>**

Darparodd HVE y wybodaeth ddiweddaraf i'r gweithgor fel a ganlyn:

<u>Band B Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain</u>

- Mae LlC yn ailwerthuso'r model ariannu a'r meini prawf dylunio fel nad yw BREEAM yn ofynnol i gael cyllid
- Mae LlC wedi derbyn adborth sy'n dangos nad yw hyn yn arwain at arbed ynni nac adeiladau carbon isel.
- Os nad yw bellach yn ofynnol gallwn ddylunio ysgolion sy'n fwy effeithlon o ran ynni / carbon isel.

<u>Adroddiadau Carbon</u>

- Bydd y canllawiau terfynol ar gyfer adroddiadau carbon yn cael eu rhyddhau ar 1 Ebrill, felly disgwylir cyrraedd y targed.

Newidiadau i Ran L (Ynni) Rheoliadau Adeiladu

- Mae Rheoliadau Adeiladu yn gyfrifoldeb datganoledig
- Y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu Ynni ar hyn o bryd yw na fydd unrhyw ddatblygiadau newydd yn derbyn nwy drwy brif gyflenwad o 2021 ymlaen.

**3.2 Myfyrio ar waith y grŵp ac enillion hawdd**

Trafodir hyn yn ddiweddarach yn y rhaglen o dan gamau nesaf a chynllun gweithgareddau (eitem 4).

**3.3 Cyfnod Ymgysylltu â'r Cyhoedd 21 Ionawr – 25 Chwefror**

Darparodd HVE y wybodaeth ddiweddaraf fel a ganlyn i'r gweithgor:

Cyflwyno adborth cyhoeddus ar-lein

- 73 adborth wedi'u cyflwyno

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus ar 25 Chwefror

- Mynychodd dros 60 o bobl y cyfarfod
- Gwyliodd 104 o bobl y cyfarfod ar-lein
- Atebwyd dros 30 o gwestiynau yn ystod y cyfarfod

Twitter

- Gwelodd 26,936 o bobl ein neges Facebook neu Twitter ("Impressions")

# Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

- 610 achos o ymgysylltu, h.y. rhoi sylw, hoffi, ail-drydar, rhannu a chlicio negeseuon
- Cyflwynwyd 6 cwestiwn trwy Twitter ar y noson

Y Camau Nesaf

- Dogfen gryno sy'n ymateb i gynnwys a dderbyniwyd i'w cynhyrchu a'r gobaith yw ei gyhoeddi erbyn diwedd Mawrth
- Edrych ar opsiynau i greu is-grŵp i'r Panel a chynnal pynciau trafod ar gyfer ymgysylltu parhaus
- E-bostio rhestr bostio i allu anfon gwybodaeth a dargedir

**Camau gweithredu**

1. **HVE-** i ychwanegu'r canlynol ar raglen mis Ebrill: mwy o wybodaeth am y gallu i greu is-grwp i'r Panel a chynnal pynciau trafod ar gyfer ymgysylltu parhaus
2. **HVE-** i anfon e-bost allan i bawb ar y rhestr bostio i roi gwybod bod cofnodion y cyfarfod hwn ar gael i'w darllen ar-lein

## 4. Camau Nesaf a Chynllun Gweithgareddau ar gyfer 2020/21

Cyflwynodd JG y papur i'r grŵp ac esboniodd y pwyntiau perthnasol gan gynnwys recriwtio gwerth hyd at 37 awr o adnodd pwrpasol i lywio gweithgareddau a darparu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn ystod 2020/21.

Diolchodd GT i'r swyddogion am y gwaith a'r meddwl a aeth i mewn i fapio'r tasgau allweddol bob mis yn ystod 2020/21 i gyrraedd pen y daith o ran strategaeth, cynllun gweithredu a dylanwadu ar y broses o osod cyllideb ar gyfer 2021/22.

## Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

Esboniodd HVE y sail resymegol y tu ôl i drefn y tasgau yn ystod 2020/21. Cafwyd trafodaeth grŵp am agweddau penodol ar y cynllun fesul mis, gan gynnwys gweithio traws-Gyngor, plannu coed, hyrwyddo gweithgareddau cymunedol / cyfleoedd ariannu, cyllid a'r broses o osod cyllideb.

**Cytunodd y grŵp ar y cynllun gweithgareddau ar gyfer 2020/21.**

Esboniodd NK bod swyddogion datblygu cymunedol yn ei thîm sydd ar gael i gynorthwyo Cynghorau Dinas, Tref a Chymunedol i gydlynu ceisiadau am gyllid.

Aeth HVE â'r grŵp trwy'r argymhelliad ynglŷn â sut i roi ystyriaeth i effaith ar hinsawdd ac ecoleg mewn prosesau penderfynu.

**Pasiwyd yr argymhelliad ynglŷn â sut i roi ystyriaeth effaith ar hinsawdd ac ecoleg mewn prosesau penderfynu.**

Esboniodd NK bod gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau Economaidd-Gymdeithasol newydd i'w hystyried ac y dylid ystyried hynny ar y cyd ag effaith hinsawdd ac ecoleg ac unrhyw newidiadau i brosesau penderfynu / canllawiau a wneir unwaith. Cytunodd y grŵp.

Trafododd y grŵp y cyllid unigol o £200k a oedd ar gael yn 2020/21 a sut y caiff yr arian hwn ei wario. Esboniodd JG/HVE y byddai'n cael ei ddefnyddio i dalu am adnoddau ychwanegol pwrpasol, ymgynghoriaeth ac arian cyfatebol / cyllid sbarduno ar gyfer ymyriadau / prosiectau a ddarperir yn ystod y flwyddyn.

**Cytunodd y grŵp â'r crynodeb o wariant lefel uchel ar gyfer y £200k.**

Trafodaeth ynglŷn â rhestr o gamau gweithredu sbarduno. Mae angen cynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn ymestyn yr isadeiledd gwefru cerbydau trydan. Mae achosion busnes ar gyfer "prosiect ysgolion dim nwy" a "phrosiect gwyrddu neuadd y sir" bron yn barod a byddant yn cael eu hasesu gan y Grŵp Buddsoddi Sylweddol (SIG) dros y misoedd nesaf er mwyn eu darparu yn 2020/21. Mae cais am fenthyciad di-log SALIX yn cael ei gwblhau er mwyn helpu i ariannu prosiectau. Trafodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o osod fferm solar ar dir y cyngor – mae dichonoldeb cychwynnol yn dangos nad oes darn

addas o dir yn debygol o fod ar gael ym mherchnogaeth y Cyngor gydag achos busnes hyfyw. Bydd hyn yn cael ei adolygu’n barhaus.

**Camau gweithredu**

1. **HVE-** i weithio gyda Gary Williams i ddarparu’r dull gweithio a argymhellwyd i gynnwys rhoi ystyriaeth i’r effaith ar hinsawdd ac ecoleg mewn prosesau penderfynu. Cyflwyno’r papur i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a fydd yn argymell bod y Cyngor yn ei gymeradwyo cyn i’r newid gael ei wneud i’r fframwaith gwneud penderfyniadau.

## 5. Awgrymiadau'r Cyngor Staff – Ymateb a chamau gweithredu sefydliadol

Cyflwynodd JG y grŵp i dabl awgrymiadau'r cyngor staff a'r ymateb/camau gweithredu sefydliadol. Edrych am gymeradwyaeth gan y grŵp i rannu hyn gyda’r Cyngor Staff a chynnwys eu hawgrymiadau mewn cynllun gweithredu 9 mlynedd lle bo hynny’n bosibl.

Aeth y grŵp trwy bob un o awgrymiadau’r Cyngor Staff ac ymateb y sefydliad a chamau gweithredu a awgrymwyd ac a ysgrifennwyd gan y swyddogion perthnasol yn y Cyngor. Cydnabuwyd y gallai rhai fod yn ddatganiadau polisi yn y strategaeth newid hinsawdd ac ecolegol newydd, gallai rhai fod yn gamau gweithredu yn y cynllun gweithredu, gellid darparu rhai camau gweithredu yn 2020/21 ac eraill i ymddangos yn y cynllun gweithredu 9 mlynedd (2021/22 – 2029/30).

**Cymeradwyodd y grŵp yr argymhelliad i rannu’r ddogfen hon gyda’r Cyngor Staff a chynnwys eu hawgrymiadau mewn cynllun gweithredu 9 mlynedd lle bo hynny’n bosibl.**

## Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

**Camau gweithredu**

1. **HVE-** i rannu dogfen ymateb / camau gweithredu'r Cyngor Staff a'r sefydliad gyda staff y Cyngor.

### 6. Ail-ddraffio llythyr i Lywodraeth Cymru (Lesley Griffiths AC)

Gofynnodd GT i'r grŵp adolygu'r drafft presennol o'r llythyr i Lywodraeth Cymru a oedd yn cael ei arddangos ar y sgrin.

Rhoddodd y grŵp awgrymiadau a newidiadau golygu.

**Cymeradwyodd y grŵp y bwriad i anfon llythyr at Lesley Griffiths AC.**

**Camau gweithredu**

1. **HVE-** i wneud newidiadau i'r llythyr fel yr awgrymwyd a gweithio gyda Sharon Evans i anfon y llythyr at y Cynghorydd Brian Jones.

### 7. Unrhyw Fater Arall

2 eitem gan BJ.

1. Awgrym i redeg gweithdy Aelodau ym mis Mai neu Fehefin ar gyfer pob Cynghorydd Sir i fwydo i mewn i ddatblygiad y strategaeth a'r cynllun gweithredu gan gynnwys datblygu datganiad polisi.

## Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

**Cytunodd y grŵp gydag awgrym BJ i'r sefydliad redeg gweithdy i Aelodau**

2. Awgrymwyd y dylid gwahodd swyddog arall o'r Gwasanaethau Cefn Gwlad i fynychu'r grŵp bob mis i sôn am AHNE a rheoli gwarchodfeydd natur.

**Pleidleisiodd y grŵp a pasiwyd yr awgrym i gael swyddog arall o'r Gwasanaethau Cefn Gwlad i fynychu cyfarfodydd y gweithgor.**

**Camau gweithredu**

1. **HVE-** i gysylltu â swyddogion perthnasol a BJ, TT a GT i wneud trefniadau ar gyfer gweithdy Aelodau ym mis Mai/Mehefin
2. **HVE-** i gysylltu â Huw Rees gyda chais am swyddog arall o'r Gwasanaethau Cefn Gwlad i ymuno â'r swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd misol y gweithgor gwleidyddol.

### 8. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a chyfarfodydd nesaf

Aeth HVE â'r grŵp trwy'r rhaglen gwaith i'r dyfodol /eitemau rhaglenni cyfarfodydd y dyfodol fel yr amlinellir yn y tabl isod.

Roedd y grŵp yn fodlon â'r eitemau arfaethedig i'w trafod ac fe ychwanegwyd eitem ar "greu is-grŵp i'r Panel a chynnal pynciau trafod ar gyfer ymgysylltu parhaus" fel y cytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod.

## Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

| Mis | Eitemau arfaethedig i'w trafod |
|---|---|
| 28 Ebrill | Thema: Darlun Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru - Rhys Horan (LlC) a Ben Sears (CLLLC) yn bresennol<br>- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a CLlLC ar yr agenda hwn<br>- Cefnogaeth ar lefel genedlaethol<br>- Trefn Adrodd newydd am Nwyon Tŷ Gwydr (disgwylir iddi gael ei lansio gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill) |
| 13 Mai | Thema: Teithio<br>- Ein fflyd gerbydau ein hunain<br>- Milltiroedd busnes<br>- Cymudo staff |
| 10 Mehefin | Thema: Ein Strategaeth a Chynllun Gweithredu drafft cyntaf ar gyfer Newid Hinsawdd ac Ecoleg<br>- Adolygu'r drafft<br>- Cynllunio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus |
| 21 Gorffennaf | Thema: Sbarduno camau gweithredu a newid ymddygiad<br>- Diweddaru am y cynnydd gyda chamau gweithredu sbarduno<br>- Cyfathrebu a newid ymddygiad ymysg staff a chynghorwyr |
| 15 Medi | Thema: Ein Strategaeth a Chynllun Gweithredu drafft cyntaf ar gyfer Newid Hinsawdd ac Ecoleg<br>- Adolygu'r drafft terfynol<br>- Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth wleidyddol<br>- Bwydo i mewn i'r gylched gosod cyllideb |
| Tachwedd - dyddiad gadarnhau | Thema: Cylched Gosod Cyllideb a chau'r gweithgor |

# Cofnodion cyfarfod Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol; 09.03.20

| Mis | Eitemau arfaethedig i'w trafod |
|---|---|
| | - Cynlluniau i gau'r grŵp yn amodol ar gymeradwyaeth wleidyddol gan y Pwyllgor Craffu / Cabinet / Cyngor ym mis Hydref<br>- Bwydo i mewn i'r gylched gosod cyllideb |

**Camau Gweithredu**

1. **HVE-** i wneud newidiadau i raglen mis Ebrill a gwahodd swyddogion ychwanegol perthnasol i gyfarfodydd yn y dyfodol yn unol â'r thema.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag